ATODLEN 2

Gofynion ardystio

# RHAN 3

## Planhigion porthiant

PENNOD 1

Safonau sylfaenol

**Cwmpas Rhan 3**

**20.** Mae'r Rhan hon yn rheoleiddio'r mathau o blanhigion porthiant yn Atodlen 1.

**Mathau a ganiateir o hadau porthiant**

**21.**—(1) Rhaid i hadau porthiant fod yn—

(a) hadau cyn-sylfaenol;

(b) hadau sylfaenol;

(c) hadau ardystiedig;

(ch) hadau ardystiedig, cenhedlaeth gyntaf;

(d) hadau ardystiedig, ail genhedlaeth;

(dd) hadau masnachol; neu

(e) hadau o safon wirfoddol uwch.

(2) Caiff yr hadau fod yn gymysgedd o rywogaethau porthiant o wahanol amrywogaethau ar yr amod bod pob amrywogaeth yn y cymysgedd wedi ei hardystio.

**Ystyr "hadau cyn-sylfaenol"**

**22.** Hadau cyn-sylfaenol yw hadau—

(a) a gynhyrchwyd o genhedlaeth gynharach na hadau cyn-sylfaenol gan, neu o dan gyfrifoldeb, y bridiwr yn unol ag arferion a ddiffiniwyd yn eglur ar gyfer cynnal yr amrywogaeth; a

(b) a fwriedir ar gyfer cynhyrchu—

(i) rhagor o hadau cyn-sylfaenol;

(ii) hadau sylfaenol; neu

(iii) gydag awdurdod ysgrifenedig y bridiwr, hadau ardystiedig CS, C1 neu C2.

**Ystyr "hadau sylfaenol"**

**23.**—(1) Hadau sylfaenol yw hadau—

(a) amrywogaethau a fridiwyd; neu

(b) amrywogaethau lleol.

(2) Hadau amrywogaethau a fridiwyd yw hadau—

(a) a gynhyrchwyd o dan gyfrifoldeb y bridiwr yn unol ag arferion a ddiffiniwyd yn eglur ar gyfer cynnal yr amrywogaeth;

(b) a fwriedir ar gyfer cynhyrchu hadau ardystiedig.

(3) Hadau amrywogaethau lleol yw hadau—

(a) a gynhyrchwyd o dan reolaeth swyddogol, allan o ddeunydd y derbyniwyd ei fod o'r amrywogaeth leol, ar un neu ragor o ddaliadau o fewn rhanbarth tarddiad y diffiniwyd ei derfynau yn eglur;

(b) a fwriedir ar gyfer cynhyrchu hadau ardystiedig.

**Ystyr "hadau ardystiedig"**

**24.** Hadau ardystiedig yw hadau (ac eithrio ffa'r maes, pys y maes, maglys rhuddlas (*Medicagio sativa*), bysedd-y-blaidd a ffacbys)—

(a) sydd wedi eu cynhyrchu yn uniongyrchol o hadau sylfaenol neu, os gofynnir felly gan y bridiwr, o hadau cyn-sylfaenol sy'n bodloni'r amodau ar gyfer hadau sylfaenol; ac

(b) a fwriedir at ddibenion ac eithrio cynhyrchu hadau.

**Ystyr "hadau ardystiedig, cenhedlaeth gyntaf"**

**25.** Hadau ardystiedig, cenhedlaeth gyntaf mewn perthynas â ffa'r maes, pys y maes, maglys rhuddlas (*Medicagio sativa*) bysedd-y-blaidd a ffacbys yw hadau—

(a) sydd wedi eu cynhyrchu'n uniongyrchol o hadau sylfaenol neu, os gofynnir felly gan y bridiwr, o hadau cyn-sylfaenol sy'n bodloni'r amodau ar gyfer hadau sylfaenol; a

(b) a fwriedir ar gyfer—

(i) cynhyrchu hadau ardystiedig, ail genhedlaeth (yn achos ffa'r maes a phys y maes yn unig); neu

(ii) dibenion ac eithrio cynhyrchu hadau (ym mhob achos).

**Ystyr "hadau ardystiedig, ail genhedlaeth"**

**26.** Hadau ardystiedig, ail genhedlaeth mewn perthynas â ffa'r maes, pys y maes, maglys rhuddlas (*Medicagio sativa*) bysedd-y-blaidd a ffacbys yw hadau—

(a) sydd wedi eu cynhyrchu'n uniongyrchol o hadau sylfaenol, o hadau ardystiedig, cenhedlaeth gyntaf (C1), neu, os gofynnir felly gan y bridiwr, o hadau cyn-sylfaenol sy'n bodloni'r amodau ar gyfer hadau sylfaenol; a

(b) a fwriedir at ddibenion ac eithrio cynhyrchu hadau planhigion porthiant.

**Ystyr "hadau masnachol"**

**27.** Hadau masnachol yw hadau gweunwellt unflwydd, ffacbys Hwngari neu'r godog, y gellir eu hadnabod fel rhai sy'n perthyn i rywogaeth.

**Gofynion cnydau a hadau**

**28.**—(1) Rhaid i archwiliadau o'r cnydau gan arolygwyr cnydau swyddogol neu drwyddedig gael eu cynnal yn unol ag Erthygl 2(3)(A) o Gyfarwyddeb y Cyngor 66/401/EEC ar farchnata hadau planhigion porthiant([1]) ac Atodiad I i'r Gyfarwyddeb honno, a rhaid i'r cnwd fodloni'r amodau yn yr Atodiad hwnnw.

([1]) OJ Rhif L 125, 11.7.1966, t. 2298, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2009/74/EC (OJ Rhif L 166, 27.6.2009, t. 40).

(2) Rhaid i'r hadau a gynhyrchir gan y cnwd gael eu samplu yn unol ag Atodiad III i'r Gyfarwyddeb honno, a rhaid iddynt fodloni'r amodau yn Atodiad II i'r Gyfarwyddeb honno.

(3) Rhaid i glefydau ac organebau niweidiol sy'n lleihau defnyddioldeb yr hadau fod ar y lefel isaf bosibl.